

Llunio Dyfodol Gofal

A all mathau Cydweithredol o sefydliadau ein helpu i gyflenwi gwasanaethau cynaliadwy o safon uchel a chymunedau iach yn erbyn cefndir o heriau a phwysau cystadleuol niferus?

A ddylai modelau Cydweithredol ddod yn rhan bwysig o ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol Cymru?

Adroddiad gan: Rhwydwaith 3



Y Rhwydwaith Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
Cefnogwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru



Hydref 2010

Ariannwyd gan: Y Grŵp Cydweithredol, Pwyllgor Gwerthoedd ac Egwyddorion Cymru

Cynnwys

Tudalen:

Diolchiadau	3
Rhagair	5
1. Beth yw “Cydwethrediad” a beth yw’r ‘modelau Cydwethredol’?	7
2. Ym mha ffordd y gallai modelau Cydwethredol fod yn berthnasol i ofal cymdeithasol?	9
3. Beth oedd negeseuon y Diwrnod Astudio?	12
4. Y seiliau ar gyfer gweithredu	19
Atodiad i. Crynodeb o gyd-destun polisi Gofal Cymdeithasol Cymru	21
Atodiad II. Sefydliadau sy’n cynrychioli neu sy’n cefnogi ‘Cydwethrediad’ yng Nghymru	26
Atodiad iii Cwmnïau Cydfuddiannol, Mentrau Cymdeithasol a’r Economi Gydweithredol	29

Diolchiadau:

Adroddiad yw hwn o brosiect a gomisiynwyd gan **Rwydwaith 3**, y Rhwydwaith Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles sy'n cael ei gefnogi gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Fe'i hariannwyd gan grant gan Bwyllgor Gwerthoedd ac Egwyddorion Grŵp Cydweithredol Cymru, ac mae'n adeiladu ar weithdy cynharach a gefnogwyd ganddynt, ym mis Chwefror 2009. Ni fyddai wedi bod yn bosibl ei gwblhau heb gyfranogiad gweithredol nifer o bobl a roddodd eu hamser, eu harbenigedd a'u hadnoddau'n hael. Yn arbennig, hoffem ddiolch i'r unigolion canlynol (yn nhrefn gyffredinol eu cyfranogiad):

-

David Smith a gafodd y syniad gwreiddiol, ac a weithiodd yn ddyfal drwy'r broses gyfan er mwyn sicrhau canlyniad cadarnhaol;

-

Adrian Roper, Joy Kent, Constance Adams, Fiona Harris, Sarah Timmis, Susanne Maddax a phawb yn Rhwydwaith 3 a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a gyfrannodd mewn amrywiaeth o ffyrdd;

-

Richard Bickle am ei gyfraniad gweinyddol ac o ran y polisi Cydweithredol, a'i adroddiad rhagarweiniol sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol hwn;

-

Mike Ash-Edwards, Ashley Drake ac aelodau Pwyllgor Gwerthoedd ac Egwyddorion Grŵp Cydweithredol Cymru am eu cymorth ariannol a'u cefnogaeth;

-

Peter Bryant, Malcolm Fisk, Hilda Smith a Richard Bickle a gyfrannodd i'r gwaith o ddatblygu cynnig a fformat y 'Diwrnod Astudio';

-

Neil Wooding, am ei gyngor doeth cychwynnol, a'i gymorth i hwyluso'r digwyddiad, a lwyddodd i wneud y Diwrnod Astudio yn ddigwyddiad cyfranogol a llwyddiannus;

-

David Melding AC, Cadeirydd Grŵp Trawsbleidiol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Gwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol, a gyfrannodd gyfarchion brawdol i'r Diwrnod Astudio;

- Y Cyng. Lindsey Whittle, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'r Cyng. Judith Pritchard aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol;

- Mark Faulkner, Steve Parslow a'r holl staff arlwyo a staff y dderbynfa yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a roddodd groeso mawr i ni i'w hadeilad;

- Rick Wilson, Yr Athro Mark Drakeford, Hilda Smith, Emrys Roberts, Judith North, Mick Taylor ac Ian Brazier a roddodd gyflwyniad yn y Diwrnod Astudio;

- Yr holl gynrychiolwyr, cadeiryddion y gweithdai a'r cofnodwyr a gyfrannodd yn y digwyddiad ac a luniodd adroddiad am y digwyddiad. I bawb a gyfrannodd i'r gwaith o ysgrifennu'r adroddiad terfynol, yn cynnwys David Smith, Adrian Roper, Peter Bryant a Richard Bickle;

- Jean Sullivan, Casnewydd, a fu'n prawf-ddarllen yr adroddiad, a David Mayer, Casnewydd, am ei waith dylunio.

I gael gwybodaeth bellach ac adborth cysylltwch â Fiona Harris (fharris@wcva.org.uk) neu ewch i <http://www.citizenscouncil.org.uk/>

Rhif ISBN: 1 903416 83 3

Hawlfraint:

Gellir defnyddio unrhyw ran o'r adroddiad hwn os rhoddir cydnabyddiaeth i'r ffynhonnell.

Rhagair

Datblygodd yr adroddiad hwn gan **Rwydwaith 3** o Ddiwrnod Astudio a gynhaliwyd yn siambr Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn Nhŷ Penallta, Ystrad Mynach ar 24ain Mawrth 2010. Mynychwyd y digwyddiad hwn gan gynrychiolwyr â buddiannau yn y gwasanaethau gofal yn cynnwys aelodau etholedig, defnyddwyr gwasanaeth, gofalmwr anffurfiol, gweithwyr proffesiynol o'r sector statudol a'r trydydd sector, darparwyr gwasanaeth y sector Cydweithredol, llunwyr polisi a gweithwyr cymorth. Roedd yr ymagwedd yn seiliedig ar egwyddorion 'ymchwiliad gwerthfawrogl' a chafwyd rhaglen fywiog o gyflwyniadau, cyfranogiad gan y gynulleidfa a sesiynau grŵp.

Cyflwynir yr adroddiad hwn i sefydliadau aelod y Rhwydwaith, a'u haelodau, fel rhan o'n hymrwymiad i gyflawni ein tair blaenoriaeth allweddol newydd sy'n deillio o'r ymgynghoriad mewnol manwl, sef:

- Datblygu capasiti'r Rhwydwaith ar gyfer cydweithredu, arloesedd, cynrychiolaeth ac arweinyddiaeth.
- Hyrwyddo, arddangos a galluogi proses ystyrlon o rymuso dinasyddion a chymunedau.
- Cyflawni cydnabyddiaeth bod gofal cymdeithasol sydd ag adnoddau digonol yn hollbwysig ar gyfer cynllunio, comisiynu a chyflenwi iechyd a lles cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion.

Yr ydym oll wedi bod yn pryderu ynglŷn â'r sefyllfa ymarferol o ddarparu gwasanaethau i bobl agored i niwed, gyda phwyslais cynyddol gan y llywodraeth ar raglenni gofal yn y gymuned, a gyhoeddwyd yn Strategaeth ddeng mlynedd Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad, 'Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol'. Mae'r Strategaeth hon yn nwylo'r Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol erbyn hyn, a fydd yn adrodd yn ôl ym mis Tachwedd 2010. Mae'r naill a'r llall yn ymrwymedig i roi llais cryf i ddefnyddwyr lywio ansawdd, gyda'r ail adroddiad yn darparu'r asgwrn cefn i Bapur Gwyn Llywodraeth y Cynulliad ar Wasanaethau Cymdeithasol 2011. Y gobaith y byddai'r modelau gofal Cydweithredol yn darparu atebion cadarnhaol i ni i'r heriau a'r cyfleoedd sy'n ein hwynebu a ysgogodd y Rhwydwaith i chwilio am arian ar gyfer ymchwilio i fodolau o'r fath.

Mae'r term cydweithredol, a ddefnyddir yn aml, yn golygu cydweithio ym mha bynnag ffordd ac felly nid oes iddo ystyr penodol. Yn ein Diwrnod Astudio, dechreuodd y gair gael ystyr penodol, gan gyfeirio at dechneg ymarferol benodol o gydweithio, gyda nodweddion arbennig ar gyfer math o sefydliad economaidd a chymdeithasol sy'n

galw eu hunain yn 'Gwmni Cydweithredol' gyda phriflythyren "C", ac sydd bellach yn cael ei ddefnyddio ar hyd a lled y byd.

Rydym yn credu bod yr ymagwedd Gydweithredol yn darparu cyfle gwirioneddol i bob un ohonom sy'n dymuno gweld gofal cymdeithasol sy'n cael ei arwain gan y defnyddwyr a gwasanaethau sy'n cael eu cyfeirio gan ddinasyddion. Gall arbenigedd ac egwyddorion y Mudiad Cydweithredol ganfod nodweddion cyffredin gyda'r trydydd sector wrth ddatblygu'r agenda radical hon ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru.

Ein gobaith yw y bydd argymhellion yr adroddiad yn ysgogi trafodaethau a chydweithredu pellach.

Andi Lyden

Cadeirydd

Rhwydwaith 3

Y Rhwydwaith lechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles

1. Beth yw “Cydweithrediad” a beth yw “modelau Cydweithredol”?

Ystyr cydweithrediad gydag ‘c’ fach yw cydweithio o dan amodau penodol neu heb unrhyw amodau penodol, ond mae Cydweithrediad yn golygu cydweithio yn unol â rhai egwyddorion sylfaenol, y bydd y rhai sy’n cymryd rhan yn cytuno i’w dilyn.

Mae gwerthoedd ac egwyddorion sefydliad cymdeithasol ac economaidd wedi’u defnyddio’n llwyddiannus am fwy na 150 o flynyddoedd. Mae cwmnïau Cydweithredol yn fath unigryw o sefydliad, sy’n cyfuno perchenogaeth ac atebolrwydd democrataidd yr aelodau gydag ymagwedd flaengar ar gyfer diwallu anghenion ac uchelgeisiau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cyffredin yr aelodau hynny. Maent wedi’u diffinio fel a ganlyn:

‘Cymdeithas o bersonau sydd wedi’u huno’n wirfoddol i ddiwallu eu hanghenion a’u huchelgeisiau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cyffredin drwy fenter o dan gydberchenogaeth ac sydd wedi’i rheoli’n ddemocrataidd’.

Mae’r egwyddorion hyn, a fydd yn sicrhau undod Mudiad Cydweithredol byd-eang, wedi’u llunio gan y Gynghrair Gydweithredol Ryngwladol (ICA), sydd â statws y Cenhedloedd Unedig, sydd â 800 miliwn o aelodau mewn mwy na 100 o wledydd, ac amcangyfrifir eu bod yn gyfrifol am fwy na 100 miliwn o swyddi ledled y byd.

Mae cwmnïau Cydweithredol yr un mor amrywiol o ran maint a math â sefydliadau gwirfoddol. O fyd bancio, yswiriant, manwerthu bwyd, teithio, gofal angladdau, fferylliaeth, ffermio i fân atgyweiriadau i feiciau, cyn gwmnïau Cydweithredol anabl yng Ngwlad Pwyl a hyd yn oed clybiau pêl-droed byd-enwog megis Barcelona.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru’n rhoi cefnogaeth hael i undebau credyd ac i gwmnïau cydweithredol gweithwyr yn fwy cyffredinol. Mae’n system o alluogi i anghenion unigol aelodau gael eu diwallu, wrth rannu’r pwysau a’r cyfrifoldeb o weinyddu busnes a bod yn gyflogwr. Maent wedi’u rheoli’n ddemocrataidd gan y rhai sy’n defnyddio’r gwasanaethau hyn ac maent yn dosbarthu unrhyw arian dros ben fel budd uniongyrchol y cytunwyd arno gan yr aelodau.

Roedd y Diwrnod Astudio, mewn ffordd, yn gofyn: gofal cymdeithasol – pam lai? Yn arbennig, pam na ddylid cael gofal cymdeithasol drwy fathau Cydweithredol o sefydliadau sy’n cael eu harwain a’u rheoli gan eu haelodau fel defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr sy’n aelodau o’r teulu?

Mae’r berthynas uniongyrchol hon rhwng defnyddwyr ac aelodau teulu a’r gwasanaethau maent yn talu amdanynt, naill ai’n uniongyrchol neu’n anuniongyrchol,

yn ymddangos yn berthnasol iawn. Yn wahanol i fodolau busnes eraill, mae'n grymuso'r aelod-ddefnyddwyr, fel y perchennog busnes, gydag un aelod, un bleidlais. Yn y ffordd hon mae'r darparwr gwasanaeth yn atebol iawn i'w aelod ddefnyddwyr. Felly, mae'n rhaid gwahaniaethu rhwng model Cydweithredol Partneriaeth John Lewis o berchenogaeth cyflogeion, sydd, er bod ganddo rinweddau, yn grymuso'r darparwr yn llawer mwy na'r defnyddiwr.

Gall aelodau fod yn ddefnyddwyr gwasanaeth yn achos Cwmnïau Cydweithredol Defnyddwyr, cyflogeion mewn Cwmnïau Cydweithredol Gweithwyr, tenantiaid mewn Cwmnïau Cydweithredol Tai, aelodau o gymuned benodol o ddiddordeb neu leoliad mewn Cwmnïau Cydweithredol Cymunedol, neu gynilwyr a benthycwyr mewn Undebau Credyd.

Honnir yn aml mai nodwedd unigryw cwmni Cydweithredol a Chydfuddiannol o gymharu â mentrau cymdeithasol eraill yw perchennogaeth a dull llywodraethu cyfranogol a democrataidd, gan roi atebolrwydd a rheolaeth wirioneddol i ddefnyddwyr gwasanaeth, cyflogeion a chymunedau lleol.

Mae'r tabl isod yn amlinellu Gwerthoedd ac Egwyddorion Cydweithredol o Ddatganiad yr ICA ar Hunaniaeth Gydweithredol.

Gwerthoedd Cydweithredo I [Sy'n benodol i Gwmnïau Cydweithredol]	Gwerthoedd Moesegol [A rennir gyda sefydliadau eraill]	Egwyddorion Cydweithredol [A ddefnyddir i weithredu'r Gwerthoedd]
1. Hunan-gymorth 2. Hunan-gyfrifoldeb 3. Democratiaeth 4. Cydraddoldeb 5. Cyfiawnder 6. Undod	Gonestrwydd Didwylledd Cyfrifoldeb Cymdeithasol Gofalu am eraill	1. Aelodaeth wirfoddol ac agored 2. Rheolaeth ddemocrataidd aelodau [Un aelod, un bleidlais] 3. Cyfranogiad Economaidd Aelodau [Wrth ddarparu cyfalaf a rhannu'r elw neu fuddiannau eraill yn gyfartal] 4. Ymreolaeth ac annibyniaeth [Oddi wrth ymyrraeth a rheolaeth Lywodraethol neu allanol eraill] 5. Addysg, hyfforddiant a gwybodaeth 6. Cydweithrediad ymhlith Cwmnïau Cydweithredol 7. Ymddiddori yn y gymuned

Mae'n ddiddorol adlewyrchu ar y gorgyffwrdd a geir rhwng y gwerthoedd a'r egwyddorion hyn a gwerthoedd ac egwyddorion sefydliadau cymunedol a gwirfoddol, ac efallai'n arbennig y rhai sydd ar flaen y gad o ran arfer da ym maes gofal cymdeithasol.

Yng Nghymru, ceir cefnogaeth eang i egwyddorion a datblygiadau Cydweithredol. Mae hyn yn cynnwys sefydlu grŵp Trawsbleidiol Llywodraeth y Cynulliad ar Gwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol ym mis Tachwedd 2009. Ceir manylion pellach am hyn a sefydliadau Cydweithredol eraill yng Nghymru, yn Atodiad ii a iii.

2. Ym mha ffordd y gallai modelau Cydweithredol fod yn berthnasol i ofal cymdeithasol?

Mae Cwmnïau Cydweithredol, yn ôl eu natur, yn canolbwyntio ar anghenion mwyaf sylfaenol eu haelodau (bwyd, lloches, tai a gofal). Maent hefyd yn darparu rhwyd ddiogelwch cymdeithasol sylfaenol i deuluoedd eu haelodau cyn cyflwyniad y wladwriaeth les.

Yng Nghymru, cymdeithas gydfuddiannol, sef Cymdeithas Cymorth Meddygol yn Nhredeg, a ysbrydolodd Aneurin Bevan i sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, ac mae sefydliadau megis Cymdeithas Gofal Iechyd Beneden a'r grŵp Simply Health yn parhau i ddarparu gwasanaethau i'w haelodau sy'n ychwanegol at y rhai a gynigir gan y GIG heddiw.

Yn deillio o waith Rhaglen gyntaf Gwrth-Dlodi'r CE yng Nghymru, yn y 1970au, bu Canolfan Weithredu Gwrth Dlodi De Cymru'n gweithio gyda Chydweithredwyr Lleol i sefydlu pedair Asiantaeth Ddatblygu Gydweithredol leol drwy arian y Rhaglen Drefol, yn cynnwys Asiantaeth Datblygu Perchenogaeth Gyffredin Gorllewin Morgannwg ym 1978, a fu'n llwyddiannus iawn. Yn y 1980au, bu'r Asiantaeth hon yn gweithio gyda'u Hadran Gwasanaethau Cymdeithasol Sirol i gefnogi datblygiad cwmnïau Cydweithredol gweithwyr drwy eu proses gomisiynu, gan arwain ymlaen o'u gwaith arloesol yn Sunderland.

Ers hynny mae'r genhedlaeth newydd o gwmnïau Cydweithredol Gofal wedi bod yn sefydlu'n raddol. Dechreuodd y rhain â chwmnïau Cydweithredol gweithwyr gofal cartref a fu'n cydweithio i ddiogelu eu cyflog a'u hamodau, ac ansawdd y gwasanaeth a gynigwyd ganddynt i gleientiaid mewn cyfnod o breifateiddio a thoriadau ar un llaw, a chynnydd yn y galw ar y llaw arall. Erbyn hyn ceir cwmnïau Cydweithredol sy'n rhedeg gwasanaethau gofal plant a meithrinfeydd, trefnu gofal maeth ac yn fwy diweddar y rhai sy'n galluogi defnyddwyr gofal i gronni eu taliadau uniongyrchol.

Ceir traddodiad hir o ddefnyddwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol yn dod ynghyd i helpu'i gilydd, grymuso, cymell ac adfer neu gynnal sgiliau a rolau cymdeithasol. Mae'r ffocws cynyddol ar hunan-reoli anghenion ieched a gofal, er enghraifft mewn cysylltiad â chyflyrau cronig, nid yn unig yn dangos y gydnabyddiaeth gynyddol a roddir i rôl y dinesydd fel asiant gweithredol a chanolog yn y broses o gyflenwi eu hiechyd a'u lles eu hunain, ond mae hefyd yn debygol o weld twf cynyddol yn y grwpiau o "hunan-reolwyr" sy'n dod ynghyd fel "Cydweithredwyr" anffurfiol neu ffurfiol.

O ran y cysylltiadau posibl rhwng ymagweddau Cydweithredol tuag at ofal cymdeithasol a datblygu gwasanaethau sydd wedi'u harwain gan ddinasyddion, gallai hyn fod yn arbennig o berthnasol yng Nghymru. Roedd papur a gyflwynwyd i'r Gweinidog Gofal Cymdeithasol gan Rwydwaith 3 ym mis Mehefin 2010 yn dadlau mai'r gwahaniaeth allweddol rhwng yr ymagwedd Bersonoli yn Lloegr a datblygu model o Gymorth wedi'i Arwain gan Ddinasyddion yng Nghymru yw bod gan y cymorth wedi'i arwain gan ddinasyddion ffocws cliriach ar berthynas gydgefnogol rhwng yr unigolyn, eu cymuned, a chomisiynwyr a darparwyr gwasanaethau lleol. Mae datblygu Cwmnïau Cydweithredol lle bydd pobl yn cronni eu Taliadau Uniongyrchol er mwyn iddynt allu rhannu'r agweddau mwy beichus o gyflogi staff, wrth sicrhau eu bod yn cynnal llais a rheolaeth wirioneddol dros eu gwasanaeth cymorth, yn un ffordd glir lle gall cwmni Cydweithredol ac arweiniad dinasyddion ddod ynghyd, ac wrth wneud hynny gellir mynd i'r afael ag ofnau'r Cymry o ymagwedd "archfarchnad" unigolyddol tuag at ofal.

Heddiw, yn dilyn tri degawd o ddatblygiadau anghyson, mae gofal cymunedol yn derbyn sylw blaenllaw mewn polisi cyhoeddus. Efallai ei bod yn amser yn awr i ddatblygu cyfres newydd o wasanaethau: rhai sy'n cael eu rhedeg gan ac ar gyfer y bobl sydd eu hangen, gydag unrhyw arian dros ben yn cael ei ddefnyddio er budd yr aelodau. Nid oes gan unigolion eu hunain yr adnoddau i redeg y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, ond gyda'i gilydd gallant ddarparu o leiaf rhai o'r gwasanaethau hynny eu hunain, yn seiliedig ar werthoedd ac egwyddorion hunangymorth ar y cyd. Mae'r model o ddarpariaeth wladol unffurf o dan bwysau. Mae nifer o bobl yn ofni marchnad gwbl gystadleuol hefyd. Yn y cyd-destun hwn, mae'n amlwg bod yna bosibilrwydd o alinio rhwng y mathau cymunedol, trydydd sector a Chydweithredol o sefydliad, gan gyflwyno syniadau newydd i'r maes gofal cymdeithasol, a mathau newydd o sefydliad cymdeithasol.

Enghreifftiau o gwmnïau Cydweithredol ar waith ym maes gofal cymdeithasol

Nid yw darpariaeth Gydwethredol gofal cymdeithasol yn y DU wedi'i datblygu'n helaeth yn y DU, ond mewn gwledydd mor amrywiol â Chanada, Awstralia, y Eidal a

Japan, mae darpariaeth o'r fath yn gyffredin. Lle bynnag mae darpariaeth o'r fath yn bodoli, ymddengys ei bod yn ased cymunedol gwerthfawr.

-

Mae Sunderland Home Care yn gwmni cydweithredol gweithwyr. Fe'i sefydlwyd 15 mlynedd yn ôl a hwy yw'r darparwr gwasanaethau gofal cartref annibynnol mwyaf yn Sunderland, gan ddarparu gwasanaethau amrywiol iawn. Mae 280 aelod o staff yn darparu dros 5000 awr o gymorth yr wythnos. Mae datblygiad ehangu newydd mawr, Independent Futures, yn fenter bartneriaeth gyda'r Gwasanaethau Iechyd ac Oedolion sy'n cefnogi pobl ag anableddau dysgu yn eu cartrefi eu hunain. Maent wedi cyflwyno ymagwedd 'micro fenter' lle bydd nifer o fentrau bach iawn yn cael eu creu er mwyn galluogi defnyddwyr gwasanaeth i arwain bywydau llawn a hapus.

http://www.wikipreneurship.eu/index.php5?title=Sunderland_Home_Care_Associates

•

Yn ardal Wrekin a Telford Swydd Amwythig, Mae cwmni Cydweithredol Wrekin Home Care yn cynnig gofal Personol a Domestig yn y cartref. Mae'n fenter gwbl gydweithredol sy'n creu swyddi i weithwyr lleol, a hwy sy'n rhedeg ac yn rheoli'r cwmni Cydweithredol a hwy sy'n berchen arno. Mae wedi bod yn gweithredu ers 1991 ac mae'n parhau i dyfu a datblygu.

<http://www.wrekinicare.co.uk/>

•

Yn Brighton a Hove, mae cwmnïau Cydweithredol Gofal yn hyrwyddo mentrau cymdeithasol fel ffordd o leihau allgau cymdeithasol a chynyddu effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol er budd y gymuned leol. Mae'n cael ei werthfawrogi'n benodol gan bobl ag anghenion cymorth iechyd meddwl.

<http://www.careco-ops.org.uk/social-enterprise.php> Interested in Social Enterprise?

•

Yn Awstralia, mae Mentrau Gofal Cydweithredol yn cael eu diffinio fel sefydliadau hunangymorth i ddiwallu angen cymdeithasol cyffredin eu haelodau. Maent yn darparu'r nifer uchaf a'r amrediad ehangaf o wasanaethau ymhlith unrhyw fath o gwmni Cydweithredol yn Awstralia. Mae'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y math hwn o gwmni Cydweithredol yn cynnwys tai cymdeithasol, addysg a hyfforddiant, gwasanaethau cyflogaeth, gofal i'r henoed, cymorth cymdeithasol, gofal plant a gwasanaethau iechyd.

<http://www.coopdevelopment.org.au/cselinks.html> Co-operative Social Enterprises

•

Yn Emilia Romagna, yng ngogledd yr Eidal, mae proses o rwydweithio gan filoedd o gwmnïau cydweithredol bach wedi cynhyrchu'r 10fed economi ranbarthol gyfoethocaf yn Ewrop, gyda'r gyfradd ddiweithdra isaf yn yr Eidal. Mae ychydig o dan hanner trigolion y rhanbarth yn aelodau o un cwmni cydweithredol o leiaf. Mae nifer o'r cwmnïau cydweithredol hyn yn 'gwmnïau cydweithredol cymdeithasol' a'u prif ddiben yw sicrhau budd i'r gymuned leol. Mae'r cwmnïau cydweithredol hyn yn ddarparwyr gofal cymdeithasol sylweddol, yn ogystal â bod yn ddarparwyr cyflogaeth i grwpiau o dan anfantais. Ar hyd a lled yr Eidal, mae yna fwy na 3,000 o gwmnïau cydweithredol gofal cymdeithasol, sy'n cyflogi bron 60,000 o bobl, y mae nifer ohonynt o dan anfantais gorfforol neu wedi bod ar ymylon cymdeithas prif ffrwd.

http://www.caledonia.org.uk/papers/Italian_Social_Cooperatives.doc+italian+social+care+cooperatives&cd=2&hl=en&ct=clnk&gl=uk

•

Mae yna nifer o gwmnïau cydweithredol sy'n darparu gofal yng Nghnada, megis 'Care Connection', a gwasanaeth gofal iechyd a gofal cartref yn ardal Lower Mainland a Fraser Valley. Mae gwasanaethau'n cynnwys gofal personol, cwmnïaeth a chadw tŷ i helpu pobl i barhau i fyw'n annibynnol mewn amgylchedd cartref diogel ac iach.

<http://www.careconnectionco-op.ca/index.htm>

•
Yn Japan, gwlad sydd â phoblogaeth hŷn uchel iawn, mae 'cwmnïau Cydweithredol Hŷn, neu 'Koreikyo', math hybrid o gwmni cydweithredol sy'n cyfuno agweddau ar gwmnïau cydweithredol defnyddwyr a gweithwyr, gan ac ar ran dinasyddion hŷn, wedi tyfu'n gyflym i fwy na 100,000 o aelodau yn ystod y degawd diwethaf. Yn y model Koreikyo, mae pobl hŷn egnïol (tua 55 i 75 oed) yn darparu gofal i bobl hŷn bregus (75 oed a hŷn fel arfer) yng nghartref y sawl sy'n derbyn y gofal drwy ganolfannau dosbarthu cynorthwyyr cartref y cwmni cydweithredol. Drwy Koreikyo, mae dinasyddion hŷn yn parhau i fod yn egnïol ac maent yn ychwanegu gwerth i'w bywydau drwy wasanaethu eraill. Mae aelodau'n creu cymuned pan fyddant yn darparu gwasanaethau a pan fyddant yn eu derbyn.

<http://www.geonewsletter.org/node/147>

3. Beth oedd negeseuon y Diwrnod Astudio?

Wrth groesawu cyfranogwyr fel cadeirydd Grŵp Trawsbleidiol Llywodraeth y Cynulliad ar gwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol, mynegodd David Melding, AC, gefnogaeth drawsbleidiol gref i'r cwmnïau Cydweithredol. Dr Neil Wooding a oedd yn cyflwyno'r diwrnod. Gweledigaeth Neil oedd y dylai'r prosiect ymchwil fod ar ffurf Diwrnod Astudio, lle gallai amrywiaeth eang o randdeiliaid gynnal trafodaeth ar eu gwerthoedd a'u profiadau. Llwyddodd y fformat i alluogi cyfranogaeth weithredol a chyflwyno ystod eang o safbwyntiau.

Darparodd y gynulleidfa gymysg o 78 o bobl y safbwyntiau canlynol: Eiriolaeth a chymorth y trydydd sector (21), Darparwyr gofal y trydydd sector (16), Cynrychiolwyr y Sector Cydweithredol/Cydfuddiannol (9), Awdurdodau Lleol (9), Llunwyr polisi ac ymgynghorwyr (7), Darparwyr Tai Cymdeithasol (5), Defnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr (5), Eraill (4) a Gweithwyr Gofal (2). Dylid nodi bod rhai o'r cyfranogwyr wedi bod mewn mwy nac un o'r categorïau hyn ac efallai bod rhai ohonynt wedi bod yn ofalwyr, neu'n ddefnyddwyr, heb esbonio hynny.

Y cyflwyniadau

Rick Wilson, Cynghrair Gwasanaethau wedi'u Harwain gan Ddinasyddion Cymru (WACDS)

Dechreuodd Rick y diwrnod drwy adrodd hanes datblygiad WACDS, y mathau o fodolau y mae'n eu cynrychioli ac yn ei hyrwyddo, a dywedodd mai'r ymagwedd o greu cynghreiriau rhwng defnyddwyr gwasanaeth, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol/cymunedol yw elfen bwysicaf cyflenwi arloesedd wedi'i arwain gan ddinasyddion yn y sector gofal.

Cyflwynodd Rick ddadl angerddol a deallus ar yr angen am ymagwedd newydd a radical ar gyfer gofal cymdeithasol. Amlygodd yr her o ganlyniad i alw cynyddol mewn anghenion a disgwyliadau gofal cymdeithasol, a'r posibilrwydd o adnoddau newydd yn cael eu rhyddhau drwy fodel o gymorth a chydweithrediad cymunedol wedi'i arwain gan ddinasyddion. Cyfeiriodd at y gwaith ymarferol sy'n cael ei wneud yn ardal Abertawe o dan y faner 'Bywydau Cynaliadwy' a oedd yn llwyddo i arddangos ffyrdd newydd o gydweithio mewn ardaloedd lleol.

Y Materion Allweddol a Nodwyd:

Yr angen i greu cynghreiriau rhwng defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr anffurfiol, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol/cymunedol.

Yr Athro Mark Drakeford, Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd

Rhoddodd yr Athro Drakeford esboniad o'r cyd-destun polisi yng Nghymru a gwybodaeth am dueddiadau yn y patrwm o alw a chyflenwi gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru a'r DU yn y degawdau diwethaf. Cyfeiriodd at gyfres o ddadleuon a dewisiadau polisi yr oedd angen eu hwynebu ym maes gofal cymdeithasol. Roedd y rhain yn cynnwys y dewis rhwng gwasanaethau cyffredinol a gwasanaethau sy'n dibynnu ar brawf modd, rhwng modelau o ddewis defnyddwyr a'r rhai sydd wedi'u trefnu o amgylch ymdeimlad o ddinasyddiaeth a rennir a'r ddadl rhwng gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol a'r rhai sy'n cael eu trefnu gan y sectorau elw a dielw.

Ailddatganodd yr achos dros gyfranogiad uniongyrchol awdurdodau lleol yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol, ar sail cydraddoldeb ac ansawdd. Soniodd am fuddiannau 'Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol' cyffredinol a fyddai am ddim ar y pwynt defnyddio ar fodel y GIG, gan bwysleisio manteision rhannu costau gwasanaeth cenedlaethol, yn seiliedig ar drethu neu yswiriant gorfodol.

Y Mater Allweddol a Nodwyd:

Yr angen i sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng y gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n uniongyrchol gan awdurdodau cyhoeddus a'r rhai sy'n cael eu trefnu gan sectorau elw a di-elw, yn arbennig o ystyried y ffaith bod y gred mewn darpariaeth gan y wladwriaeth yn parhau'n gryf yng Nghymru.

Hilda Smith, Defnyddiwr gwasanaeth ac aelod o gwmni

Cydweithredol

Mynegodd Hilda, aelod gweithredol o'r mudiad Cydweithredol ers 50 mlynedd, ei chred y gallwn ddiwallu anghenion pobl mewn ffyrdd mwy ymarferol ac arloesol, ond bod angen mwy o ddealltwriaeth o egwyddorion cwmnïau Cydweithredol er mwyn gallu ategu gweithredu ymarferol.

Fel nyrs a gweithiwr cymdeithasol pobl hŷn wedi ymddeol, yr oedd bellach yn ymwybodol iawn o'r gwasanaethau ddylai fodoli, ond nad ydynt. Soniodd hefyd am y diffyg ymgysylltiad ac anweledigrwydd sy'n datblygu gydag oedran. Pan fydd ymgynghoriadau'n cael eu cynnal, pobl egniol sy'n cael eu cynnwys. Nid oes gan y bobl hynny na allant adael eu cartrefi eu hunain lais y gellir gweithredu arno. Ond, ar ôl bywyd o brofiad, yr oedd hefyd yn ymwybodol sut y gall gwario arian yn ddoeth wella ansawdd bywyd.

“Os ydych yn dymuno cael gafael ar wasanaethau ychwanegol”, gofynnodd, “pa ffordd well na chael eich sefydliad Cydweithredol lleol eich hun i'w redeg ar eich cyfer a gennych chi, lle byddwch chi'n cael penderfynu sut mae'n cael ei redeg, a chyflogi staff, gyda thelerau ac amodau da, a hyfforddiant, cefnogaeth a goruchwyliaeth ddigonol? Wrth i ni drosglwyddo i fwy o ofal yn y cartref, gydag arian yn cael ei ddarparu, beth am ei wario hyn yn Gydwethredol?” Roedd yn credu'n gryf y gallai hyn sicrhau gwasanaeth gwell, annibyniaeth ac urddas gwirioneddol mewn gofal.

Y Mater Allweddol a nodwyd:

Yr angen i hyrwyddo a chefnogi dealltwriaeth well o athroniaeth Gydwethredol a sut mae'n ategu gweithredu ymarferol

Emrys Roberts, Mind Cwm Rhymni

Rhannodd Emrys ei brofiadau fel rheolwr GIG a fu'n gyfrifol am drafod cytundebau lefel gwasanaeth gyda'r trydydd sector ac yn ddiweddarach fel Trysorydd elusen iechyd meddwl leol. Dywedodd bod y berthynas rhwng awdurdodau ariannu statudol lleol ac elusennau lleol sy'n darparu gwasanaethau'n llawn anawsterau.

Roedd hyn yn arbennig o wir yn Mind Cwm Rhymni sy'n fenter Gydwethredol y mae ei haelodau a defnyddwyr gwasanaeth yn berchen arni, ac sy'n ymateb i'r anghenion y maent yn eu crybwyll. Dywedodd bod yn well gan reolwyr Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi eu blaenoriaethau eu hunain, neu ymateb i flaenoriaethau a

bennwyd ar eu cyfer o lefel uwch. O ganlyniad, roeddent yn amharod i ariannu unrhyw weithgaredd nad ydynt yn cydymffurfio â'u syniad hwy o angen.

Dadleuodd Emrys er mwyn sicrhau bod cwmnïau Cydweithredol neu ddarparwyr gwasanaethau elusennol eraill yn diwallu'r anghenion a nodwyd gan eu haelodau a'u defnyddwyr gwasanaeth, ni ddylent orfod dibynnu ar gael eu hariannu gan asiantaethau statudol lleol. Mae angen rhyw fath o arian annibynnol, hyd braich.

Y Mater Allweddol a nodwyd:

Yr angen i wasanaethau gofal cymdeithasol Cydweithredol sy'n grymuso defnyddwyr gael eu hariannu mewn ffyrdd sy'n rhoi disgrisiwn gwirioneddol iddynt wneud eu penderfyniadau eu hunain.

Judith North, Reach Supported Living

Dechreuodd Judith drwy fynegi'r anfonlonrwydd y mae'n parhau i'w deimlo â'r ffyrdd y mae defnyddwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu trin gan y system gyfredol: yn arbennig, y ffyrdd lle nad yw pobl yn cael yr hawl i wneud newidiadau ynglŷn ag agweddau sylfaenol eu gofal a'u cymorth.

Aeth ymlaen i roi amlinelliad o'i gwaith yn Reach, lle mae cyllidebau cyfan neu gyllidebau bloc yn cael eu hunigoli er mwyn rhoi dewisiadau unigol i ddefnyddwyr gwasanaeth ynglŷn â'r ffordd y dylid gwario eu cyllideb. Awgrymodd mai'r unig ffordd o roi urddas gwirioneddol mewn gofal i ddefnyddwyr gwasanaeth oedd ymddiried ynddynt i nodi a phwrcasu'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Y Mater Allweddol a nodwyd:

Yr angen i alluogi defnyddwyr gwasanaeth i gael rheolaeth dros eu gwasanaethau eu hunain fel cyd-bwrcaswyr.

Mick Taylor, Mutual Advantage

Rhannodd Mick ei brofiad helaeth ym maes datblygu gofal cymdeithasol a Chydweithredol. Soniodd am fodolau sydd wedi'u harwain gan ddinasyddion, lle bydd gennym ni fel dinasyddion fudd wedi'i fuddsoddi, lle byddwn yn rheoli pa ofalwr

sy'n dod, a phryd, a beth sy'n digwydd.

Rhoddodd Mick amlinelliad o'r gwaith a wnaeth fel rhan o fodolau peilot prosiect yr Adran Iechyd (Lloegr) / Co-operatives UK ar gyfer cwmnïau Cydweithredol taliadau uniongyrchol sy'n galluogi defnyddwyr gwasanaeth i gronni eu taliadau uniongyrchol/cyllidebau personol ac yna cyflogi gweithwyr gofal ar y cyd. Mae hyn yn rhoi rheolaeth wirioneddol i ddefnyddwyr gwasanaeth, ond mae'n galluogi'r cwmni Cydweithredol i drin y cyfrifoldebau cyfreithiol, ariannol a threfniadol, megis llunio rotâu.

Roedd y pedwar prosiect yn cynnwys prosiect wedi'i arwain gan ddefnyddwyr gwasanaeth, sefydliad Age Concern lleol, partneriaeth rhwng grŵp gofalwyr a chynllun byw'n annibynnol. Mae tri o'r rhain yn seiliedig ar fodel clwstwr gydag unigolyn cymorth rhan amser sy'n gofalu am grŵp o bobl gyda thua 150 o oriau gofalu, gwneud gwaith gweinyddol ac adrodd yn ôl i grwpiau o gleientiaid a gofalwyr.

Y Materion Allweddol a nodwyd:

Yr angen i ymestyn y ddarpariaeth taliadau uniongyrchol ac yna cyflogi gweithwyr gofal ar y cyd, yn cynnwys costau gweinyddol hanfodol.

Yr angen i grwpiau cymunedol a gwirfoddol ddysgu o brofiad cwmnïau Cydweithredol gofal cymdeithasol ymarferol ar hyd a lled y DU.

Ian Brazier, The Foster Care Co-operative Ltd

Rhoddodd Ian esboniad o gefndir a gwaith y Foster Care Co-operative (FCC) yng Nghymru a Lloegr. Eu prif amcan oedd darparu gwasanaethau o safon uchel ac felly nid hwy o reidwydd oedd y darparwr rhataf yn y farchnad. Aeth ymlaen i godi rhai o'r heriau y maent yn eu hwynebu yng nghyd-destun y diwylliant sy'n parhau lle mae awdurdodau lleol yn comisiynu a'r posibilrwydd o sefydlu model 'Partneriaeth Gymdeithasol Gyhoeddus' ar gyfer cyflenwi a phwrcasu gwasanaethau gofal yn y dyfodol.

Sefydlwyd FCC ym mis Hydref 1999 gan Laurie Gregory fel dewis amgen i asiantaethau maeth y sector preifat a oedd, yn ei farn ef, yn elwa ar yr anawsterau a brofwyd gan blant agored i niwed. Yr oedd eisoes wedi cael profiad gwael o weithio o fewn elusen a chredai y gallai cwmni Cydweithredol ddarparu ateb drwy gyfuno ymagwedd broffesiynol â chyfres sylfaenol gref o werthoedd. Mae wedi'i ymgorffori

fel Cwmni Cyfyngedig drwy Warant ac mae ganddo ddwy brif swyddfa yn Malvern a Chaerdydd. Mae'r aelodau'n cynnwys Gofalwyr Maeth a chyflogeion. Fodd bynnag, mae Rheoliadau Maethu'r Llywodraeth yn atal gofalwyr maeth rhag gwneud cyfraniad uniongyrchol i'r gwaith o lywodraethu neu reoli asiantaeth gofal maeth, felly, yn gyfreithiol, mae'r gofalwyr maeth yn aelodau cyswllt o'r cwmni Cydweithredol ac nid oes ganddynt bleidlais.

Y Materion Allweddol a nodwyd:

Yr angen i sicrhau nad yw datblygiadau Cydweithredol yn cael eu hystyried fel opsiwn rhad a'u bod yn cael eu hariannu'n briodol.

Yn gyffredinol, mae'r adborth gan y cynrychiolwyr wedi dangos brwdfrydedd mawr i'r syniad o wasanaethau gofal cymdeithasol wedi'u darparu gan gwmni Cydweithredol. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen mwy o wybodaeth ac arweiniad ar bobl ar sut y gallent hybu datblygiadau o'r fath yn eu sefydliadau a'u cymunedau eu hunain.

Rhai dyfyniadau allweddol gan gynrychiolwyr:

•

"Hoffwn ddefnyddio'r wybodaeth a gyflwynwyd heddiw i archwilio a datblygu ymagwedd gwbl gydweithrediadol er mwyn newid ein hymagwedd tuag at gyflenwi gwasanaethau. Hoffwn dderbyn yr offer i ganolbwyntio ar hyn er mwyn gwneud iddo ddigwydd".

•

"Ym mha ffyrdd y gallwn wrando'n effeithiol ar ddefnyddwyr ac ymgysylltu â hwy i gynllunio a chyflenwi gwasanaethau".

•

"Gyda newidiadau demograffig, a newid i ofal cymunedol, a'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu cyflenwi, yn ogystal â chyfyngiadau ariannol, mae hwn yn gyfle heb ei ail i ddatblygu'r math o wasanaethau sydd eu hangen er budd aelodau agored i niwed o'r boblogaeth yn y dyfodol. Allwn ni gael y Mudiad Cydweithredol i gefnogi hyn?"

•

"Byddaf yn gweithio'n weithgar er mwyn sicrhau bod y trydydd sector yn gwneud cyfraniad i'r gwaith o ganfod atebion Cydweithredol i broblemau ymarferol, a chamau gweithredu cydgysylltiedig gan sefydliadau'r trydydd sector".

•

"Gallai adroddiad da am y gynhadledd helpu i ddarbwylo swyddogion ac eraill yr wyf yn eu cwrdd yng nghyfarfodydd amrywiol Llywodraeth y Cynulliad nad oes ganddynt

unrhyw wybodaeth neu ddealltwriaeth o Gydweithrediad fel dull o ddarparu ateb ymarferol i anghenion gofal cymdeithasol pobl hŷn”.

•

“Dylem annog yr holl bleidiau gwleidyddol i gynnwys ymrwymiad yn eu Maniffestos ar gyfer etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2011, i gwmnïau Cydweithredol sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion trwy bob dull posibl, e.e. Parhau â Fframwaith a Chanllaw Comisiynu Gofal Iechyd y GIG, y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn a Grŵp Cydgysylltu Urddas Mewn Gofal Cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad”.

•

“Fy uchelgais y dylai unrhyw Bapur Gwyn Gofal Cymdeithasol yn y dyfodol wneud ymdrech unedig i gyflawni rhaglen Cymru gyfan, na fydd o reidrwydd yn un rhaglen sy'n addas i bawb, gyda datrysiadau gofal cymdeithasol Cydweithredol / Cydfuddiannol, y mae ei haelodau'n berchen arni ac yn ei rheoli, sy'n cael ei gweithredu ym mhob ardal yng Nghymru”.

•

“A allai thema ‘Llais Dinasyddion’ y Loteri Fawr 2011 ddarparu cyfle i sefydliadau cymunedol a gwirfoddol hybu a chefnogi datrysiadau Cydweithredol? Byddai hyn yn darparu cyfeiriad cadarnhaol ar gyfer dathlu Blwyddyn Cwmnïau Cydweithredol yng Nghymru Blwyddyn 2012 y Cenhedloedd Unedig”.

•

“A allai Cynghorau Gwirfoddol Sirol ddarparu adnoddau datblygu cymunedol gyda Hwyluswyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol, i gefnogi dinasyddion sy'n dymuno sefydlu eu gwasanaethau cartref eu hunain, megis glanhau, garddio a siopa, a fyddai'n cydfynd â gwasanaethau'r sector cyhoeddus?”

•

“Mae'n rhaid i ni sicrhau bod yr athroniaeth Gydweithredol yn sail i gynigion cydfuddiannol yn y sector iechyd/gofal cymdeithasol ac nad yw'n cael ei defnyddio fel dull drws cefn o breifateiddio gwasanaethau”.

•

“Hoffwn weld y datganiad canlynol ym Maniffesto 2011 pob plaid wleidyddol yng Nghymru: Mae'r pwysau economaidd a demograffig presennol yn cyflwyno heriau a chyfleoedd i'r ymgais o ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion ar gyfer pobl Cymru. Rydym yn ymrwymo ein hunain i hybu a chefnogi datblygiad datrysiadau Cydweithredol sydd wedi'u harwain gan ddefnyddwyr, y mae'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol yn gydberchenogion arnynt ac sy'n cael eu rheoli'n ddemocrataidd ganddynt. Credwn y bydd datrysiadau o'r fath yn darparu gwasanaethau atebol a chynaliadwy o ansawdd uchel, sy'n gallu ymateb yn uniongyrchol i anghenion pobl”.

•

“Roedd Dysgu i Gydweithredu a Chydweithredu i Ddysgu' yn un o nodweddion allweddol y Diwrnod Astudio, a oedd yn gyfle dysgu gwyb. Mae Cydweithredu'n

bwysig iawn mewn gwledydd eraill y tu hwnt i Ynysoedd Prydain. Beth allwn ni ei ddysgu ganddynt hwy yn y cyfnod pwysig hwn?

4.Y seiliau ar gyfer gweithredu

Ar hyn o bryd yng Nghymru, mae'r cyd-destun ar gyfer gofal cymdeithasol yn datblygu'n gyflym ac mae'n cynnig cyfleoedd ar gyfer modelau cyflenwi gwasanaeth newydd:

-

Papur Gwyn Llywodraeth y Cynulliad ar ofal cymdeithasol a fydd yn cael ei gyhoeddi'n fuan;

-

Y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yn cyflwyno adroddiad eleni sy'n hanfodol ar gyfer llunio gofal cymdeithasol yng Nghymru;

-

Y Byrddau Iechyd Lleol newydd, sy'n cynnwys ffocws pwysig ar ddatblygu ymyrraeth gynnar fwy effeithiol a chymorth hirdymor yn y gymuned. Ochr yn ochr â hyn, mae'r GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol yn gobeithio cydweithio mwy, er enghraifft, drwy fabwysiadu un system ar gyfer comisiynu a phwrcasu gwasanaethau sy'n cynnwys cyd-gynllunio gwasanaethau gyda defnyddwyr gwasanaeth, a mabwysiadu is-gymalau cymdeithasol;

-

"Cynllun i Ychwanegu Gwerth - cyfeiriad strategol ar gyfer y sector gwirfoddol a chymunedol o ran cefnogi iechyd a gofal cymdeithasol", Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008 - lle bu i'r Llywodraeth Genedlaethol nodi'r cyfraniad pwysig y gall y trydydd sector ei wneud wrth gyflenwi'r GIG newydd a'r newid yng nghydbwysedd y ddarpariaeth er mwyn darparu gwasanaethau sy'n agosach i'r cartref, mewn cymunedau a thu allan i amgylchedd yr ysbyty;

-

Rhaglen Genedlaethol Gofal Iechyd Parhaus y GIG gyda'i 10 Newid Effaith Uchel ar gyfer Gofal Cymhleth;

-

Yn nhermau gwella gwasanaethau cyhoeddus – adolygiad Beecham a arweiniodd at strategaeth *Cyflawni'r Cysylltiadau* Llywodraeth y Cynulliad gyda ffocws ar 'lais nid dewis', sef gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion, gyda dinasyddion yn ymgysylltu yn y gwaith o gynllunio a gwella'r broses o gyflenwi gwasanaethau;

-

Mesur Strategaethau Gofalwyr Arfaethedig (Cymru) er mwyn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu i gyflwyno gofyniad newydd i'r GIG ac awdurdodau lleol yng Nghymru i gydweithio mewn partneriaeth i baratoi, cyhoeddi a gweithredu

strategaeth ar y cyd ar ofalwyr;

-

Gwaith Bwrdd y Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesedd trawsbleidiol sy'n ceisio mynd i'r afael â'r cyfyngiadau ariannol presennol ac arfaethedig ac sy'n ceisio datblygu modelau gwasanaeth newydd;

-

Yr adolygiad o'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn, yn ogystal â chynhyrchu'r Fframwaith Cymunedol trawsbleidiol o Wasanaethau ar gyfer Pobl Hŷn;

-

Yr angen cydnabyddedig am fwy o ffocws ar weithredu yn erbyn tlodi;

-

Y strategaeth 'Ymgysylltu', a sefydlwyd gan Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a chefnogi adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol i wella eu harfer a sicrhau ymgysylltiad cyson a systematig â defnyddwyr a gofalwyr;

-

Cynghrair Cymru ar gyfer Cymorth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion yn datblygu'r agenda bersonoli ond yn datblygu model unigryw i Gymru;

-

Y cyfleoedd ar gyfer cydweithio cymdeithasol a gynigir gan dechnoleg newydd ar y we;

-

Y cyfleoedd sy'n cael eu cyflwyno gan Flwyddyn Cwmnïau Cydweithredol y Cenhedloedd Unedig yn 2012.

Ceir manylion pellach ar y cyd-destun hwn yn Atodiad i.

Argymhellion

O ystyried yr uchod, a'r dystiolaeth rymus ar gyfer datrysiadau Cydweithredol a amlygwyd yn ystod y Diwrnod Astudio, mae ein blaenoriaethau cymeradwy ar gyfer gweithredu fel a ganlyn:

1. Hybu'r athroniaeth a'r arfer o ddatblygu datblygiadau Cydweithredol sydd wedi'u harwain gan ddefnyddwyr fel cyfraniad sy'n seiliedig ar werthoedd er mwyn llunio polisi gofal cymdeithasol yng Nghymru.
2. Nodi a hyrwyddo enghreifftiau o arfer da mewn ymagweddau Cydweithredol sydd wedi'u harwain gan ddefnyddwyr wrth ddarparu gofal cymdeithasol.

3. Nodi, adeiladu, a hybu argaeledd cymorth arbenigol, yn lleol ac yn genedlaethol, er mwyn datblygu modelau Cydweithredol gofal cymdeithasol sydd wedi'u harwain gan ddefnyddwyr.
4. Nodi a hyrwyddo argaeledd arian ac adnoddau eraill ar gyfer datblygu cwmnïau Cydweithredol gofal cymdeithasol newydd sydd wedi'u harwain gan ddefnyddwyr.
5. Ceisio sicrhau cefnogaeth partneriaid yng Nghymru ym meysydd iechyd, gofal cymdeithasol a lles, datblygiad cymunedol, a datblygiad Cydweithredol, ar gyfer cyflwyno'r gweithredoedd hyn, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

DS. O ystyried y bygythiadau presennol i arian gwasanaethau cyhoeddus, mae yna berygl y gallai'r model Cydweithredol gael ei ystyried fel opsiwn rhatach. Y neges a gafwyd yn y Diwrnod Astudio oedd peidio â gwneud hynny. Er bod modelau Cydweithredol o ofal cymdeithasol yn debygol o arddangos effeithiolrwydd, gwerth ychwanegol, gwerth cyhoeddus, a llawer mwy, nid ydynt yn datblygu'n dda heb gostau cychwynnol rhesymol, ac ni allant barhau heb arian parhaus digonol. Mae arianwyr sy'n chwilio am ddewis rhatach cyflym yn debygol o gael eu siomi gyda'r datblygiadau Cydweithredol. Ar y llaw arall, mae arianwyr sy'n barod i wneud buddsoddiadau strategol yn y cyfeiriad hwn yn debygol o ganfod ymhen ychydig flynyddoedd bod ganddynt seilwaith cryfach o wasanaethau, sy'n ymrwymedig i'r ardal leol, sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr iawn gan yr aelodau sy'n ddefnyddwyr, ac sydd wedi'i brisio'n deg.

Atodiad i.

Crynodeb o gyd-destun polisi Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae'r gwaith o ddarparu a threfnu gwasanaethau gofal cymdeithasol i bobl yng Nghymru wedi cyrraedd pwynt tyngedfennol. Mae'r ymgais i wella ansawdd ac ymatebolrwydd gwasanaethau wedi'i gyflwyno yn erbyn cefndir o bwysau economaidd a demograffig arwyddocaol, ac mae angen mynd i'r afael â hynny. Mae'r wybodaeth ganlynol yn cyflwyno rhai o'r prif ffactorau a datblygiadau polisi y bydd angen ystyried y modelau cyflenwi gofal newydd wrth eu llunio.

Y Galw ac Adnoddau

Rhagwelir y bydd y galw am wasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer plant ac oedolion anabl ac ar gyfer pobl hŷn yn parhau i dyfu'n gryf o ganlyniad i welliannau i arfer meddygol a'r disgwyliad y bydd pobl yn byw'n hwy.

Mae yna anghysondeb difrifol yn parhau i fodoli rhwng y ffordd y mae gwasanaethau gofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd ar gyfer oedolion yn cael eu hariannu a'u trefnu. Mae gofal cymdeithasol oedolion yn gyfrifoldeb i'r awdurdodau lleol, defnyddwyr sy'n gyfrifol am brofion modd a hwy sy'n ei gyd-ariannu ac mae'n cael ei gyflenwi gan nifer o sefydliadau gwahanol, wrth i'r rhan fwyaf o wasanaethau iechyd gael eu hariannu'n gyffredinol, eu trefnu'n ganolog ac maent am ddim ar y pwynt cyflenwi. Mae natur anghyson gwasanaethau gofal cymdeithasol yn golygu y gallant amrywio'n fawr iawn o ardal i ardal ac mae defnyddwyr a gofalwyr yn aml yn cael anhawster i'w defnyddio. Mae adnoddau cyfyngedig yn dueddol o gael eu targedu at y rhai sydd â'r angen mwyaf gan adael galw sylweddol am gymorth lefel is sy'n cyfrannu at ansawdd bywyd pobl ac sy'n helpu i oedi'r angen am ymyriadau dwysach.

Er bod gwasanaethau gofal craidd ar gyfer plant a theuluoedd yn cael eu hariannu'n gyffredinol, maent yn wynebu heriau sylweddol. Mae'r cyfraddau recriwtio a chadw isel a'r morâl isel ymhlith gweithwyr cymdeithasol yn y maes hwn a phrinder teuluoedd maeth yn parhau i greu pryder.

Mae disgwyl i'r dirwasgiad economaidd presennol a'r gostyngiadau i gyllidebau gwasanaethau cyhoeddus gael effaith ddifrifol ar wasanaethau gofal rheng flaen. Wrth gyfuno hyn â galw cynyddol, mae hyn yn cyflwyno amgylchedd anodd iawn ar gyfer datblygu gwasanaethau gofal cymdeithasol cynhwysfawr o ansawdd uchel sy'n ymateb i anghenion unigol.

Datblygiadau polisi

Ar lefel y DU, Ewrop a'r Cenhedloedd Unedig:

-

Mae Llywodraeth y DU wedi sefydlu Comisiwn ar Ariannu Gofal a Chymorth yn ddiweddar er mwyn archwilio'r ffordd orau o ddiwygio'r system ariannu gofal. Disgwylir adroddiad gan y Comisiwn ym mis Gorffennaf 2011 a bydd yn hysbysu papur gwyn a fydd yn arwain at ddeddfu yn 2011-12.

-

Bu i'r Llywodraeth flaenorol basio'r Ddeddf Gofal Personol yn y Cartref (2010), sy'n

berthnasol i Gymru a Lloegr. Y bwriad oedd i hyn baratoi'r ffordd ar gyfer Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol a gofal personol am ddim yn Lloegr. Bydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu sut y bydd hyn yn cael ei gyflwyno yng Nghymru.

-

Mae Deddf Cydraddoldeb (2010) yn cynnwys mesurau newydd i ddiogelu pobl sy'n derbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gan sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r rhai sy'n gweithredu ar eu rhan rhag gwahaniaethu. Disgwylir i'r mesurau hyn ddod i rym o fis Hydref 2010.

-

Mae'r prif bleidiau gwleidyddol wedi ystyried rôl Gydweithredol a Chydfuddiannol fel rhan o'r agenda diwygio gwasanaethau cyhoeddus. Bu i'r Llywodraeth flaenorol gynhyrchu'r Budd Cydfuddiannol, a oedd yn archwilio rôl cwmnïau cydfuddiannol wrth greu mwy o berchenogaeth a rheolaeth i ddinasyddion a staff dros wasanaethau cyhoeddus. Mae cytundeb y Llywodraeth Glymblaid bresennol yn datgan "Byddwn yn cefnogi'r gwaith o greu ac ehangu cwmnïau cydfuddiannol, cwmnïau Cydweithredol, elusennau a mentrau cymdeithasol, a chynyddu cyfraniad y grwpiau hyn yn y gwaith o redeg gwasanaethau cyhoeddus".

-

Y cyfleoedd sy'n cael eu cynnig ar gyfer cydweithrediad cymdeithasol gan dechnoleg newydd. Er enghraifft, defnyddio technoleg 2.0 rhad a hygyrch ar y we i rannu profiadau ac ategu gwaith Barn Cleifion ym maes gofal iechyd. (<http://www.patientopinion.org.uk/info/about>).

-

O dan faner y Gymdeithas Fawr, mae Swyddfa'r Cabinet wedi cyhoeddi 12 prosiect Braenaru'n ddiweddar ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus. Byddant yn cael eu rhedeg fel cwmnïau cydfuddiannol gan staff y sector cyhoeddus gan weithio gyda sefydliadau gwirfoddol, gyda'r nod o archwilio ffyrdd newydd o ddatganoli pŵer er mwyn cyflenwi gwasanaethau'n well gyda llai o arian.

-

Pwysleisio heneiddio egniïol, iach ac urddasol fel thema allweddol yn y Blynyddoedd Ewropeaidd: 1012 (Blwyddyn Ewropeaidd ar gyfer Goresgyn Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol), 2011 (Blwyddyn Ewropeaidd Gwirfoddoli) a 2012 (Blwyddyn Ewropeaidd Heneiddio Egniïol ac Iach a Chydgefnogaeth Rhwng y Cenedlaethau) Datblygu Siarter Ewropeaidd ar Hawliau Personau sydd Angen Cymorth a Gofal.

-

Blwyddyn Cwmnïau Cydweithredol 2012 y Cenhedloedd Unedig. Wrth fabwysiadu cynigion 64/136 ar 18 Rhagfyr 2009, nododd Cynulliad Cenedlaethol y Cenhedloedd Unedig bod cwmnïau Cydweithredol yn cael effaith ar leihau tlodi, creu cyflogaeth ac integreiddiad cymdeithasol. Mae'r Cenhedloedd Unedig yn cyhoeddi Blynyddoedd Rhyngwladol er mwyn tynnu sylw at faterion pwysig ac annog gweithredu. Er mwyn coffáu'r Flwyddyn, bydd cynadleddau rhanbarthol yn codi ymwybyddiaeth o gwmnïau cydweithredol ac yn ceisio canfod ffyrdd i gynyddu eu cyfraniad i ddatblygiad economaidd gymdeithasol a meithrin fframweithiau rheoliadol.

<http://www.un.org/News/Press/docs/2009/dev2784.doc.htm>

Yng Nghymru:

-

Mae Cyflawni'r Cysylltiadau, fframwaith strategol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus, yn seiliedig ar yr egwyddor o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion lle bydd pobl a chymunedau'n cyfrannu at y gwaith o gynllunio gwasanaethau i sicrhau eu bod yn ymateb i anghenion defnyddwyr. Mae'n hyrwyddo cydweithrediad gwell rhwng darparwyr er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau a chyflenwi gwasanaethau cynaliadwy ac ymatebol o'r ansawdd uchaf.

-

Mae Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol, strategaeth ddeng mlynedd Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol, yn ymgorffori'r egwyddor o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ac sy'n hybu annibyniaeth, cynhwysiant cymdeithasol a hawliau dinasyddion.

-

Cyflenwi canlyniadau effeithiol drwy sicrhau bod darparwyr cyhoeddus, preifat a darparwyr y trydydd sector yn cydweithio. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol i archwilio ffyrdd o ehangu cydweithrediad ac integreiddio gwasanaethau cymdeithasol er mwyn cyflawni heriau'r degawd nesaf. Disgwylir adroddiad gan y Comisiwn ym mis Tachwedd 2010 a bwriedir cyflwyno papur gwyn yn 2011.

-

Disgwylir i Fframwaith Cymunedol o Wasanaethau ar gyfer Pobl Hŷn gael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. Bwriedir i'r Fframwaith fod yn gysylltiedig ag anghenion ac uchelgeisiau pobl hŷn a gofalwyr a sicrhau bod gwasanaethau'n ddigon hyblyg ac ymatebol, tra'n darparu lefel o gysondeb ar hyd a lled y wlad.

-

Mae adolygiad wedi'i gynnal o'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl

Hŷn, a fydd yn hysbysu'r Fframwaith diwygiedig ar gyfer ymgynghori yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

-

Mae'r Strategaeth Pobl Hŷn yn agos at gael ei chwblhau ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn asesu ei chyflawniadau ac yn ystyried trefniadau'r dyfodol ar ôl 2013.

-

Mae'r fenter Urddas mewn Gofal yn parhau i hybu arfer da wrth hyrwyddo parch a diddymu camdriniaeth y mae pobl hŷn yn ei hwynebu. Y blaenoriaethau presennol yw cefnogi mwy o brosiectau lleol a sefydlu Cymuned o Ymarferwyr sy'n Hyrwyddo Urddas Mewn Gofal.

-

Mae'r Ymgynghoriad ar Dalu am Ofal wedi cyflwyno opsiynau ar gyfer ariannu gofal hirdymor yng Nghymru. Disgwylir i'w ganfyddiadau gael eu cyhoeddi yn yr hydref a byddant yn cael eu cynnwys yng Nghomisiwn y DU ar Ariannu Gofal a Chymorth. Mae'r Mesur Taliadau Gofal Cymdeithasol (2010) yn paratoi'r ffordd ar gyfer ymagwedd decach a mwy cyson ar gyfer codi taliadau am wasanaethau gofal cymdeithasol amhreswyl yng Nghymru.

-

Mae Mesur Strategaethau Gofalwyr (Cymru), y disgwylir iddo gael ei gymeradwyo erbyn diwedd mis Medi, yn gwneud darpariaeth ar gyfer dyletswyddau cyfreithiol newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r GIG ac awdurdodau lleol baratoi strategaethau gofalwyr ar y cyd. Bwriedir i'r strategaethau hyn fynd i'r afael â'r broses o ddarparu gwybodaeth i ofalwyr, ymgynghori â hwy ar wasanaethau unigol a'u cyfranogiad yn y gwaith cyffredinol o gynllunio gwasanaethau.

-

Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) (2010) yn cyflwyno dyletswyddau newydd i Lywodraeth y Cynulliad a chyrrff cyhoeddus ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant. Mae'r Strategaeth Tlodi Plant newydd ar gyfer Cymru a'i Chynllun Cyflenwi'n cynnwys amcan strategol i leihau anghydraddoldebau sy'n bodoli mewn canlyniadau iechyd, addysg a chanlyniadau economaidd i blant sy'n byw mewn tlodi drwy weithredu integredig i gefnogi plant a theuluoedd difreintiedig.

-

Ceir cydnabyddiaeth gynyddol bod mesurau sy'n cefnogi pobl ifanc agored i niwed yn fwy effeithiol os byddant yn gweithio mewn ffordd gyfannol gyda theuluoedd, gan fynd i'r afael ag anghenion y rhieni a'r plant. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cyflwyno Timau Cefnogi Teuluoedd Integredig ar sail beilot, sy'n darparu cymorth

dwys a phroses well o gydlynu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i'r teuluoedd hynny sy'n wynebu'r heriau mwyaf.

-

Mae'r Trydydd Dimensiwn – Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Cynllun Sector Gwirfoddol (2008) yn cydnabod rôl allweddol y trydydd sector i alluogi pobl i gyfrannu yn eu cymunedau, cynorthwyo gwasanaethau cyhoeddus i gyrraedd mwy o bobl a bod yn fwy ymatebol i'w hanghenion a defnyddio ei arbenigedd i lunio polisiâu a gwasanaethau. Mae'r Cynllun i Ychwanegu Gwerth (2008) yn adeiladu ar y themâu hyn ac yn gosod cyfeiriad strategol ar gyfer cyfraniad y trydydd sector i iechyd a gofal cymdeithasol sy'n seiliedig ar weithio mewn partneriaeth yn effeithiol.

-

Mae'r rhaglen Cymryd Rhan, a sefydlwyd gan yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ceisio sefydlu beth mae awdurdodau lleol yn ei wneud ar hyn o bryd i gynnwys defnyddwyr a gofalwyr yn y gwaith o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau cymdeithasol a chefnogi adrannau gwasanaethau cymdeithasol i wella eu harfer a sicrhau ymgysylltiad cyson a systematig â defnyddwyr a gofalwyr.

Atodiad ii.

Sefydliadau sy'n cynrychioli neu sy'n cefnogi 'Cydweithrediad' yng Nghymru

- **Y Grŵp Cydweithredol**

Mae'n debygol mai'r Grŵp Cydweithredol yw'r rhan fwyaf gweledol o'r Mudiad Cydweithredol yng Nghymru. Yn eiddo i'w aelodau sy'n gwsmeriaid, mae'n cynhyrchu bron i £14 biliwn ac mae'n gweithredu siopau bwyd yn y DU, ffermio, trefnwyr teithiau, fferyllwyr, trefnwyr angladdau, gwasanaethau ariannol a changhennau banciau ac mae hefyd wedi yno â Chymdeithas Adeiladu Britannia. Mae gan Gwmnïau Cydweithredol yng Nghymru mwy na 372,000 o aelodau (12% o boblogaeth Cymru) a chynhyrchodd drosiant o £400m yn 2009 (ac eithrio CFS) drwy 348 o allfeydd manwerthu. Y llynedd, dosbarthwyd £50miliwn o arian dros ben i aelodau'r DU. Gweler <http://www.co-operative.coop/membership/share-of-the-profits/> <<http://www.co-operative.coop/membership/share-of-the-profits/>>

Mae'r Grŵp Cydweithredol yn ei hanfod yn rhannu ein gwerthoedd ac yn rhoi cymorth grant i sefydliadau cymunedol a gwirfoddol. Drwy ei Bwyllgor Gwerthoedd ac Egwyddorion Cymru a'r Gronfa Gymunedol, mae'n gweithio i hyrwyddo diwylliant o Gydweithredu drwy annog aelodaeth weithredol a gweithio gyda sefydliadau cymunedol amrywiol ar hyd a lled Cymru. Y llynedd, derbyniodd ei aelodau yng Nghymru £100mil at ddibenion cymunedol. Mae'r Grŵp yn sefydliad gwbl ar wahân a gwahanol i Ganolfan Cydweithredol Cymru sy'n cael ei hariannu gan arian cyhoeddus.

Gweler <http://www.co-operative.coop/membership/Community-Fund/>

Y llynedd, gwnaeth Rhwydwaith 3 gais llwyddiannus i Grŵp Cydweithredol y DU, cwmni Cydweithredol defnyddwyr, am grant ymchwil o £3000 i archwilio i'r posibilrwydd o greu cwmnïau Cydweithredol gofal. Mae'r Grŵp Cydweithredol yng Nghymru hefyd yn cefnogi cymunedau drwy reoli, ar ran Llywodraeth y Cynulliad, 8 ardal Cymunedau yn Gyntaf yn Sir Benfro, Y Rhyl a Blaenau Gwent. Sefydlwyd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf er mwyn helpu i adfywio cymunedau penodol yng Nghymru sy'n wynebu heriau cymdeithasol ac economaidd aruthrol.

- **Canolfan Cydweithredol Cymru**

Mae Canolfan Cydweithredol Cymru, sy'n cael ei hariannu'n gyhoeddus, wedi bod yn

gweithio am fwy na 25 o flynyddoedd gydag unigolion a sefydliadau yn eu helpu i sefydlu Mentrau Cydweithredol newydd. Mae'n canolbwyntio'n bennaf ar gefnogi mentrau adfywio cymunedol megis cwmnïau Cydweithredol Cymunedol; mentrau cynhwysiant ariannol megis Undebau Credyd; perchenogaeth cyflogeion drwy ddilyniant busnes a Chonsortia Cydweithredol. Gweler www.walescoop.com

- **Cymorth i Fentrau Cydweithredol**

Mae Cymorth i Fentrau Cydweithredol yn fenter gymharol newydd a ddefnyddir gan y Grŵp Cydweithredol i geisio cefnogi'r gwaith o ddatblygu cenhedlaeth newydd o gwmnïau Cydweithredol drwy ddarparu cyngor, hyfforddiant a mynediad at arian. Fe'i cyflenwir yng Nghymru gan gonsortiw m o dan arweiniad Canolfan Cydweithredol Cymru.

Gweler www.co-operative.coop/Enterprisehub/

- **Co-operatives UK**

Co-operatives UK yw'r gymdeithas fasnachu sy'n cynrychioli buddiannau'r Mudiad Cydweithredol ar hyd a lled y DU. Mae'n hybu buddiannau cwmnïau Cydweithredol, mae'n gweithio i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o werthoedd ac egwyddorion Cydweithredol, ac mae'n cefnogi datblygiad a thwf cwmnïau Cydweithredol newydd a phresennol. Mae'n ganolbwynt i'r sector, yn fforwm ar gyfer arloesedd ac arfer gorau ac mae'n darparu llais strategol i'r Mudiad Cydweithredol.

Gweler www.co-operatives-uk.coop

- **Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru**

CMW yw'r rhwydwaith strategol sy'n cynrychioli ac yn hyrwyddo buddiannau Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol yng Nghymru. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r sector yng Nghymru ac mae'n cydweithio'n agos â Co-operatives UK.

Gweler www.wales.coop

- **Sefydliad Astudiaethau Cydweithredol Caerdydd**

Mae CICS yn gweithio yn Ysgol Reoli Caerdydd yn UWIC i ddatblygu a chyflenwi gwaith ymchwil ac addysgu amrywiol sy'n gysylltiedig â'r Mudiad Cydweithredol a'r Economi Gymdeithasol gyffredinol, yng Nghymru ac yn fyd-eang. Ymhlith y meysydd arbenigedd allweddol mae profiad ymarferol o ddatblygu a chefnogi cwmnïau Cydweithredol, Cydfuddiannol, Undebau Credyd a Mentrau Cymdeithasol eraill mewn lleoliadau amrywiol.

Gweler www.uwic.spindogs5.co.uk/cardiff-institute-for-co-operative-studies

- **Grŵp Trawsbleidiol Llywodraeth y Cynulliad**

Crëwyd Grŵp Trawsbleidiol Llywodraeth y Cynulliad ar gwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol ddydd Mercher 25 Tachwedd 2009. Ymhlith Aelodau'r Cynulliad sydd wedi ymrwymo eu hunain i ymuno â'r grŵp mae Lorraine Barrett AC, Chris Franks AC, John Griffiths AC, Mark Isherwood AC, Gareth Jones AC, Huw Lewis AC a David Melding AC. Mae'r grŵp yn cwrdd yn rheolaidd i drafod pynciau megis cwmnïau Cydweithredol Ffermwyr, Tai Cydfuddiannol Cymru, Cronfeydd Cydfuddiannol ar gyfer buddsoddiadau busnes bach a'r Mudiad Undeb Credyd yng Nghymru.

Atodiad iii

Cwmnïau Cydfuddiannol, Mentrau Cymdeithasol a'r Economi Gydweithredol

- **Cwmnïau Cydfuddiannol**

Ystyr manwl gywir cwmnïau Cydfuddiannol yw math penodol o gwmni Cydweithredol lle bydd yr holl aelodau yn ddefnyddwyr ac mae'r holl ddefnyddwyr yn aelodau. Mae'r enghreifftiau mwyaf adnabyddus yn y sector ariannol megis Cymdeithasau Adeiladu, Cymdeithasau Cyfeillgar ac Yswirwyr Cydfuddiannol. Fodd bynnag, mae'r term 'cydfuddiannol' yn cael ei ddefnyddio'n fwy cyffredinol erbyn hyn i ddisgrifio'r amrywiaeth eang o fentrau sy'n seiliedig ar aelodaeth yn cynnwys cwmnïau Cydweithredol, cwmnïau cydfuddiannol ariannol, ymddiriedolaethau cefnogwyr pêl-droed a sefydliadau tai gwirfoddol. Ceir cenhedlaeth newydd hefyd o 'gwmnïau cydfuddiannol gwasanaeth cyhoeddus' megis Ymddiriedolaethau Sefydledig y GIG ac Ysgolion Ymddiriedolaethau Cydweithredol yn Lloegr, sy'n destun llawer o ddadleuon.

- **Mentrau Cymdeithasol**

Mae Menter Gymdeithasol yn derm cyffredinol sydd, yn ôl y Gynghrair Mentrau Cymdeithasol, yn cwmpasu 'busnesau sy'n masnachu at ddibenion cymdeithasol ac amgylcheddol'. Mae hyn yn amlwg yn cynnwys cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol, ac mae hefyd yn cynnwys is-gwmnïau masnachu elusennau cofrestredig a gweithgareddau 'entrepreneuriaid cymdeithasol' fel y'u gelwir. Ystyrir bod y mathau cydweithredol o sefydliadau ar begwn democrataidd y sbectrwm o fentrau cymdeithasol.

Mae CHEX, un o'r asiantaethau blaenllaw yn yr Alban, yn darparu adnodd i gefnogi ymagweddau datblygu cymunedol i wella iechyd a herio anghydraddoldebau iechyd. Maent wedi cynhyrchu 'Healthy and Enterprising – a social enterprise approach to community-led health' ac adroddiad ategol o'r enw 'How does the Social Enterprise Model fit with Community-led Health Initiatives?' sy'n werth ei ddarllen. Dim ond cyfeiriad anuniongyrchol a wneir i ddatrysiadau Cydweithredol.

- **Yr economi Gydweithredol**

Roedd gan yr economi Gydweithredol yn y DU drosiant o fwy na £29 biliwn yn 2009,

roedd yn cyflogi 205,800 o bobl mewn 4,820 o fusnesau gyda mwy na 11 miliwn o aelodau. (Co-operatives UK 2009).

Yng Nghymru, mae'r ffigurau hefyd yn drawiadol gyda throsiant o £948 miliwn yn 2009, gyda 7,000 o bobl yn cael eu cyflogi mewn 206 o fentrau Cydweithredol gydag aelodaeth o 520,000 o bobl. (CMW 2009)

Cefnogir
Rhwydwaith 3
(Y Rhwydwaith Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles)
gan
CGGC
(Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru)
Tŷ Baltig
Sgwâr Mount Stuart
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF10 5FH
Elusen Gofrestredig 218093
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 425299
Wedi ei gofrestru yng Nghymru

Mae Rhwydwaith 3 a CGGC yn cydnabod yn ddiolchgar y cymorth ariannol a dderbyniwyd gan Y Grŵp Cydweithredol a'n galluogodd i gynnal y gwaith ymchwil hwn yng Nghymru.

